CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Trefor Lloyd Hughes**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Cybi**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Addysg.

| **Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 4 (44%) |
| Pwyllgor Safonau | 1 (50%) |
| Pwyllgor Apeliadau (yn mynychu ar sail rota) | Dim cyfarfodydd |
| Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | 1 (25%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 1 cyfarfod (25%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Mae'r manylion isod yn cyfeirio at yr amrywiol gyrff/sefydliadau yr wyf un ai'n aelod ohonynt neu yn eu mynychu fel sylwedydd:

Cadeirydd Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Caergybi a Llywodraethwr Ysgol Thomas Ellis – wedi mynychu cyfarfodydd.

Cadeirydd Canolfan Gymunedol Millbank
Cadeirydd Cymdeithas Chwarae Cae Cybi, Treseifion
Aelod o Gyngor Tref Caergybi
Yn mynychu Cynghorau Cymuned Trearddur a Rhoscolyn

Er gwaethaf cyfnod o waeledd rwyf wedi bod yn flaenllaw yn fy ngwaith fel Cynghorydd dros Ynys Cybi.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Da i ddweud fod grant o £450,000 gan Lywodraeth Cymru i ail adeiladu Canolfan Cymuned Millbank wedi ei dderbyn ac yn gobeithio bydd y Ganolfan yn agor yn fuan. Rwyf hefyd wedi bod yn flaenllaw yn y trafodaethau ynglŷn a chae chwarae Bae Trearddur i'w gadw i drigolion yr ardal.

Gyda etholiad "dros y bryn" edrychaf ymlaen os yn fuddugol i gynrychioli'r ardal i'r dyfodol, hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Dafydd Thomas a Cynghorydd Jeff Evans am eu cefnogaeth dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'n amlwg bod ffyrdd, cynllunio a llifogydd yn faterion fydd gennyf angen sylw os yn fuddugol yn yr etholiad ac yn edrych ymlaen i gydweithio gyda'r trigolion i ddatrys problemau.

Ym mis Medi bydd ysgol newydd Cybi yn agor a credaf bydd yr ysgol yn un llwyddiannus. Teimlaf fy mod wedi gwella'r ardal gyda cyd weithrediad y gymuned ac yn edrych ymlaen yn fawr i'r dyfodol.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiynau Briffio Aelodau ( 6 allan o 23 = 26%) | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi delio gydag amrywiaeth o bynciau i gynorthwyo etholwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=50&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes** | **Ebrill 2017** |